**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 18 Medi 2013**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghr. Joan Butterfield, Hugh Irving, Pat Jones a Barry Mellor |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd cysylltiad personol na rhagfarnllyd gan unrhyw un. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Dim. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2013 a 27 Mehefin 2013.* |
| **5** | ADOLYGU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 044473 | ***PENDERFYNWYD*** *nad yw'r honiadau yn erbyn Gyrrwr Rhif 044473 wedi eu profi ac felly nad oes angen gweithredu pellach.* |
| **6** | ADOLYGU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 043120 | ***PENDERFYNWYD*** *gwahardd Gyrrwr Rhif 043120 rhag gyrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat am gyfnod o dri mis ar sail diogelwch y cyhoedd yn unol ag Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.* |
| **7** | ADOLYGU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 047689 | Roedd y Cadeirydd wedi penderfynu'n flaenorol i ohirio'r mater hwn tan y cyfarfod ar 4 Rhagfyr 2013. |
| **8** | DEDDF TRWYDDEDU 2003 – AWDURDOD TRWYDDEDU FEL AWDURDOD CYFRIFOL | ***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r swyddogaeth hon yn cael ei dirprwyo i'r uwch Swyddog Gorfodi Cymunedol ar ran y Pwyllgor Trwyddedu.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 18 Medi 2013**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **9** | DIWEDDARIAD AR ADOLYGIAD O FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDAU 2013/14 | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cadw'r strwythur ffioedd presennol tan mae Panel Technegol Trwyddedu wedi penderfynu ar gyfres o drefnau generig ar gyfer pennu ffioedd a than mae adolygiad llawn wedi ei gynnal.* |
| **10** | ADOLYGU POLISÏAU O DDRWS I DDRWS A CHASGLU AR Y STRYD | ***PENDERFYNWYD*** *cefnogi ac argymell bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r polisïau drafft ar gyfer Casgliadau o Ddrws i Ddrws (gwelwch Atodiad A i'r adroddiad) a Chasgliadau ar y Stryd (gwelwch Atodiad C i'r adroddiad).* |
| **11** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2013/14 | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu.* |